Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,

# The Water Street Dental Practice

18 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-3584-1
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Methodoleg .......... 2
3. Cyd-destun .......... 4
4. Crynodeb .......... 5
5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 14

6. Y Camau Nesaf .......... 16

Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis The Water Street Dental Practice, yn 13 Heol y Dŵr, Caerfyrddin, SA31 1PY yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 18 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae practis The Water Street Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion preifat yn bennaf, ac i rai o gleifion y GIG, yn ardal Caerfyrddin. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys: tri deintydd, dau hylenydd, pum nyrs (sydd hefyd yn gweithio yn y dderbynfa) ac un rheolwr cyllid.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau deintyddol cyffredinol
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod.

Mae AGIC yn deall bod practis The Water Street Dental Practice yn bractis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ogystal â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae practis The Water Street Dental Practice yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar safon y gofal yn y practis, a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol am y rhan fwyaf o'r meysydd gofal.

Rhoddwyd sicrwydd inni fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n gyson mewn ffordd sy'n bwriadu sicrhau diogelwch a lles y cleifion.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem yn sicr bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.

Gall y cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar safon y gofal yn y practis, a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol am y rhan fwyaf o'r meysydd gofal.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i dderbyn sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. At hynny, gwnaethom siarad â nifer bach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (tri chlaf).

Dychwelwyd 20 o holiaduron, fodd bynnag, ni chytunodd un claf i AGIC ddefnyddio'r sylwadau yn yr adroddiad hwn, felly gwnaethom ystyried 19 o holiaduron. Roedd y cleifion a wnaethant gwblhau'r holiaduron a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw wedi defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng pedwar mis a 40 o flynyddoedd. Dangosodd pob un o'r 22 o bobl fod tîm y practis yn groesawgar ac roedd hanner ohonynt yn awgrymu bod y staff yn rhoi *"croeso cynnes"* iddynt.

Roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cadarnhaodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau â'r deintyddion fod yr opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion; a chaiff cynlluniau triniaeth, opsiynau ar gyfer triniaeth neu hoffter y claf eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Nid oedd y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y tu allan i oriau'r GIG gan fod hyn yn cael ei arwain gan y bwrdd iechyd. Roedd neges awtomatig wedi'i chysylltu â llinell ffôn y practis, a oedd yn darparu gwybodaeth am y manylion cyswllt y tu allan i oriau. Roedd hefyd arwydd yn cynnwys y rhif cyswllt ar y ffenestr flaen.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym yn ôl y gofyn. Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y system, er bod hanner wedi profi oediad wrth aros i weld y deintydd; dywedodd 35% bod angen iddynt aros yn achlysurol, ond nid oedd angen i 15% ohonynt aros. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Ddim yn oediad derbyniol."*
>
> *"Ydw, tua 30 munud."*

*"Yn achlysurol! Ond fel arfer ar amser."*

*"Yr amser aros hiraf yw 30 i 40 munud ac weithiau'n hirach."*

*"Ydw, pob ymweliad."*

*"Ddim yn aml, ond dim ond oediad byr os oes un."*

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis i archwilio'r mater ynghylch amserau aros ac ystyried meysydd y gellid eu gwella.***

Roedd taflen wybodaeth y practis ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth sylfaenol. Mae angen adolygu'r ddogfen hon er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth gywir o ran:

- Sefydliadau i gysylltu â nhw pe bai pryder gan glaf
- Y gwasanaethau mae'r practis yn eu cynnig
- Gwybodaeth glir am p'un yw'r practis yn bractis y GIG, practis preifat neu'r ddau.
- Sicrhau bod rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu cynnwys.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod taflen y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu.***

Roedd arwyddion clir ar flaen yr adeilad, gan ddangos amserau agor y practis er gwybodaeth y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod gan y practis systemau i asesu'n rheolaidd barn y cleifion a'i weithredu megis: blwch awgrymiadau, holiaduron cleifion a holiadur cleifion y GIG blynyddol. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ystyried barn y cleifion wrth gynllunio ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth. Roedd hwn yn ddull rhagweithiol i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cwrdd ag anghenion ei gleifion. Roedd yn glir bod cysylltiadau cadarnhaol gyda'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Rhoddwyd enghreifftiau o newidiadau awgrymedig inni megis: mwy o lyfrau plant, peiriant dŵr a newid y gerddoriaeth yn amlach.

Gwnaethom edrych ar nodiadau'r cleifion a chanfod bod cyngor ar hyrwyddo iechyd y geg, sgrinio am ganser a rhoi'r gorau i ysmygu'n cael ei gofnodi. Gwelsom hefyd posteri hyrwyddo iechyd y geg yn y dderbynfa a'r mannau aros.

Roedd y deintyddion yn cynnig taflenni wedi'i hargraffu am sgrinio am ganser a rhoi'r gorau i ysmygu pan holwyd amdanynt.

Roedd polisi cwyno ar gael ac roedd y cleifion yn gallu gweld hwn yn y dderbynfa. Roedd yn cydymffurfio'n llwyr â gweithdrefn gwyno'r GIG a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'[2]. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cyfeiriadau AGIC na'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar y polisi er mwyn i gleifion gysylltu â nhw pe bai angen gwneud hyn. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder, dywedodd mwy na hanner ohonynt y byddent yn gwybod. Dywedodd y rhai nad oeddent yn sicr, *"Byddwn i'n holi'r deintydd"* neu *"Byddwn i'n ymchwilio i'r peth pe bai angen".*

Dywedodd pob claf ei fod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oedd yn ei dderbyn. Yn ychwanegol i'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth rhai o'r cleifion sylwadau ac awgrymiadau cadarnhaol am eu profiadau a oedd yn cynnwys:

> *"Practis proffesiynol iawn a chyfeillgar."*
>
> *"Hapus iawn – rydw i'n caru fy neintydd a'i dîm."*
>
> *"Mae fy neintydd a'i staff wastad wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i mi."*
>
> *"Mae gen i lawer o ffydd yn fy neintydd. Mae pawb wastad yn gyfeillgar ac mae ganddyn nhw ddigon o amser i chi."*
>
> *"Y ddeintyddfa orau i mi wybod amdani erioed."*
>
> *"Gwasanaeth proffesiynol iawn. Mae wastad croeso i mi ac maen nhw'n rhoi gwybod i mi am y driniaeth sydd ei hangen a'r driniaeth sydd wedi cael ei chwblhau. Bodlon iawn."*

---

[2] Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer lleisio pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Rhoddwyd sicrwydd inni fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n gyson mewn ffordd sy'n bwriadu sicrhau diogelwch a lles y cleifion.**

### Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion yn y practis yn cael eu cadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol, ac roedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw ar bapur. Dangosodd archwiliad o sampl o 15 cofnod deintyddol (h.y. pum cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis) fod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n gadarn. Roedd rhai o bryderon ynghylch y deintyddion, gan nad oeddent yn cydlofnodi hanes meddygol y cleifion bob amser na'i ddiweddaru'n gyson pan fyddai triniaeth newydd wedi cael ei rhoi. Nodwyd gennym hefyd fod diffyg cofnodion hanes cymdeithasol, megis ysmygu ac yfed alcohol sy'n effeithio ar iechyd y geg. O ran cynlluniau triniaeth, gwelsom gysondeb rhwng y deintyddion ac roedd pawb yn dangos cynllunio, penderfyniadau a chydsyniad am driniaeth. Ni allem fod yn sicr bod y cleifion yn cael eu hail-alw o fewn y canllawiau Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[3] oherwydd nid ydynt yn cael eu cofnodi.

Lle roedd y cleifion wedi derbyn radiograffau (pelydrau-x), gwelsom dystiolaeth bod pob deintydd yn cofnodi gwerthusiad clinigol o'r pelydr-x i sicrhau bod ansawdd y llun yn ddigonol. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd i sicrhau arferion diogel ac effeithiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod y deintyddion yn llofnodi'r cofnod hanes meddygol, bod cofnodion hanes cymdeithasol yn cael eu llunio a bod amserau ail-alw'n cael eu cofnodi yn erbyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).***

---

[3] Mae canllaw clinigol ail-alw deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

Gwnaethom drafod ansawdd y cofnodion â'r deintyddion a chanfod bod systemau boddhaol ar waith ar y cyfan. Gwelsom fod y deintyddion yn ysgrifennu eu hadroddiadau clinigol yn hytrach nag yn dibynnu ar dempledi. Mae hyn yn sicrhau bod y nodiadau'n unigryw ac yn cofnodi gwybodaeth sy'n benodol i bob claf. Dangosodd trafodaeth bellach â'r deintyddion fod archwiliadau clinigol rheolaidd ac adolygiadau i helpu i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

**Cadw cyffuriau ac offer brys**

Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau brys yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas wedi eu sefydlu i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn brydlon. Gwelsom hefyd fod lliwiau gwahanol ar gyfer cyffuriau brys unigol a'r canllawiau cysylltiedig er mwyn mynd atynt yn hawdd mewn argyfwng. Mae hyn yn enghraifft o arfer hynod.

Roedd swyddog cymorth cyntaf pwrpasol ar gael, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei storio o fewn cyrraedd hawdd. Mae offer sydd ei angen pe bai argyfwng ar gael, a chaiff eitemau penodol eu storio ym mhob deintyddfa yn ogystal ag yn y pecyn cymorth cyntaf.

Roedd y practis yn bractis fferyllol a gwelsom fod cyffuriau a phresgripsiynau'n cael eu storio'n ddiogel. Gwnaethom wirio dyddiadau dod i ben y cyffuriau ac roedd pob un yn gywir.

**Dadheintio**

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau ar waith o ran dadheintio offerynnau a chanfod bod mesurau priodol ar waith, gan gynnwys ystafell ddadheintio bwrpasol. Roedd prosesau clir ar waith a gwelsom broses glir o ddiffinio mannau glân a mannau brwnt. Gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion yn briodol a gwaith cynnal ar gyfer yr offer glanhau a ddefnyddiwyd.

Gwelsom a chadarnhaodd y staff fod archwiliadau (gwiriadau) rheolaidd bob tri mis mewn perthynas â gofynion rheoli heintiau sy'n unol â'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)[4].

---

[4] http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy. Mae'r ddogfen WHTM 01-5 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

**Cyfarpar radiograffig**

Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Roedd cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodol ar gael; nodi a diffinio ardaloedd rheoledig; cofnod o ymchwiliad i faint o ddos i'w roi, a system sicrhau ansawdd o ran ansawdd y lluniau. Gwelsom hefyd dystysgrif archwilio'r offer radiograffeg.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem yn sicr bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.**

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth deintyddol preifat yn bennaf, ac roedd ganddo rai o gleifion y GIG.  Ar adeg ein harolygiad, roedd y prif ddeintydd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg yn dda ac roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisïau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Roedd dyddiadau adolygu ar y polisïau i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau gan y prif ddeintydd a hefyd y deintyddion eraill. Gwnaethant ddweud hefyd y byddent yn hapus i leisio unrhyw bryderon posibl sy'n ymwneud â'r gwaith gydag unrhyw un o'r tri. Roedd tystiolaeth o weithio mewn tîm mewn modd cydlynol ac effeithiol.

Cynigiwyd rhaglen gynefino i'r staff newydd yn ogystal â chyfnod cyfeillio i sicrhau bod digon o gymorth wrth iddynt ddechrau eu swydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roeddent yn cadarnhau bod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r staff sy’n berthnasol i’w swyddogaethau.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pob aelod o staff yn meddu ar dystysgrifau'r GDG, sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat [5], a phrawf o frechiadau boddhaol. Gwnaethom drafod cymorth iechyd galwedigaethol ar gyfer y staff â'r prif ddeintydd, a ddywedodd fod contract gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi’i ffurfioli eto. Cytunodd y

---

[5] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat.

byddai'r prif ddeintydd yn siarad â'r bwrdd iechyd ac yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig.

Gwelsom fod tîm o staff wedi'i hen sefydlu ar gael; roedd rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd y prif ddeintydd fod pob aelod o staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol rheolaidd a chadarnhawyd hyn gan y staff trwy gofnodion cyfarfod. Roedd hyn yn gyfle i leisio unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, cyfleu gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol, a thrafod canlyniadau o holiaduron cleifion ac archwiliadau. Roedd hyn yn dangos ei fod yn bractis blaengar sy'n derbyn beirniadaeth ac yn gwella o wersi a ddysgwyd.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, a oedd yn dangos bod systemau a phrosesau rheoli addas ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei arolygu mewn modd amserol ac sy'n unol â gofynion gorfodol.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu gweld yr yswiriant indemniad a thystysgrifau AGIC y deintyddion ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol. Mae angen diweddaru'r tystysgrifau ac roedd y prif ddeintydd eisoes wedi dechrau gwneud hyn.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gall y cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion dderbyn triniaeth.**

Mae practis The Water Street Dental Practice yn bractis sefydledig yng nghanol tref Caerfyrddin. Nid oes maes parcio pwrpasol, na lle i barcio ar y strydoedd ochr sy'n agos i'r practis. Mae meysydd parcio cyhoeddus nad ydynt yn bell o'r practis ar droed.

Gall y cleifion sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad i adeilad y practis oherwydd nad oes unrhyw risiau ac mae'r drws yn ddigon llydan i gadair olwyn fynd trwyddo. At hynny, mae ystafelloedd triniaeth y cleifion/deintyddfeydd ar y llawr daear. Mae'r practis wedi ystyried yn ofalus ei gyfleusterau i sicrhau gall y cleifion eu defnyddio'n hawdd, ac maent wedi defnyddio teclynnau codi'n flaenorol i gynorthwyo cleifion i eistedd yn y gadair ddeintyddol.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Roedd dau dŷ bach ac un cyfleuster sy'n hawdd ei ddefnyddio gan bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd y mannau aros, deintyddfeydd a mannau cylchredeg yn lân iawn, yn daclus ac roedd digon o olau ac aer ynddynt.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a diogelu papur a chofnodion electronig yn ddiogel ac roedd system wrth gefn foddhaol ar gyfer cofnodion electronig. Roedd rhagofalon diogelwch ar waith hefyd i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion. Roedd hefyd larwm arwahanol rhwng desg y dderbynfa a'r deintyddfeydd i gynorthwyo mewn argyfwng.

Dim ond enwau a chymwysterau dau allan o'r tri deintydd a oedd yn gweithio yn y practis oedd yn cael eu harddangos. Hefyd, nid oedd bwrdd a oedd yn dangos manylion adnabod y staff er mwyn i'r cleifion adnabod y staff a oedd yn rhoi'r driniaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid gweld rhestr o bob deintydd, ei gymwysterau a'i rifau cofrestru y tu allan i'r practis.***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a'u rhifau cofrestru pan fo hynny'n berthnasol.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel i'r cleifion allu mynd i mewn ac i'r staff weithio.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â thri maes.  Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym mhractis The Water Street Dental Practice yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: The Water Street Dental Practice

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Cynghorir y practis i archwilio'r mater ynghylch amersau aros ac ystyried meysydd y gellid eu gwella. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (8a).** | Mae strategaethau i gyflawni hyn ar y gweill | H.King | 2 wythnos |
| Tudalen 7 | Mae angen i'r practis sicrhau bod taflen y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18b, d); Safon Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (1.3.3)** | Mae'r broses o weithredu'r camau gweithredu wedi dechrau | H.King | Yn parhau |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| Tudalen 9 | Mae angen i'r practis sicrhau bod y deintyddion yn llofnodi'r cofnod hanes meddygol, bod cofnodion hanes cymdeithasol yn cael eu llunio a bod amserau ail-alw'n cael eu cofnodi yn erbyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (7a); Safon Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (4.1.1)** | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Nid oes angen unrhyw welliant ar yr achlysur hwn. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 14 | Rhaid gweld rhestr o bob deintydd, ei gymwysterau a'i rifau cofrestru y tu allan i'r practis. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18d, 25a); Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.1.5).** | Prynwyd arwydd sy'n enwi'r deintyddion a'r manylion perthnasol gan ddarparwr – yn aros iddo gyrraedd | H.King | 3 wythnos |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 15 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a'u rhifau cofrestru pan fo hynny'n berthnasol. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18d, 25a); Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.1.5).** | Gwnaed newidiadau i'r arwydd gyfredol | H.King | Cwblhawyd |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (printiwch):** Hilary S.M. King

**Teitl:** Mrs

**Dyddiad:** 01/04/2015